| Dyddiad | Datgan Diddordeb | Presennol | Penderfyniadau a gytunwyd arnynt |
|---|---|---|---|
| 4/4/23 | Dim | **Y Cynghorwyr** Beryl Hughes Griffiths (Cadeirydd), Euros Roberts (Is-gadeirydd) *(ffôn)*, Llinos Edwards, Alwyn E Jones, Arwel Lloyd Jones, Dewi Wyn Jones, Alwyn M Roberts, Huw P Roberts<br><br>Hefyd yn bresennol: Alan Jones Evans (Cyngor Gwynedd), Bethan Edwards (Swyddog Ariannol), Lis Puw (Clerc)<br><br>**Cyhoedd:** neb yn bresennol.<br><br>**Ymddiheuriadau:** Huw Antur, Heledd Jones | **Cytunwyd** i edrych mewn i gael gwell darpariaeth digidol ac i drafod gyda swyddogion y Neuadd.<br><br>**Cytunwyd i dalu Anfonebau**<br>CCF – toiledau £65.69<br>Trwsio toiledau £60.00<br>Coeden Dolig £66.00<br>Tanwydd Nadolig £20.00<br>Zoom – traean £47.96<br><br>**Cytundebau a CTheF:** Cyfanswm: £971.80<br><br>**Cynllunio:**<br><br>NP5/71/269M Ail-strwythuro ac uwchraddio 15 o leiniau unedau teithiol presennol i gynllun tirlunio dwysedd is yn cynnwys 5 carafán deithiol/cartref modur a 10 pabell (cynllun diwygiedig) Bwch yn Uchaf, Llanuwchllyn. LL23 7DD. **Cytunwyd i** anfon yr un ymateb a Gorffennaf 2022 a oedd yn egluro mai hawl i 5 carafán sydd ar y sefyllfa wrth y tŷ.<br><br>NP5/71/106A Adeiladu anecs parod unllawr mewn pren ar gyfer defnydd preswyl atodol yn gysylltiedig â'r annedd Yr Hen Felin, Llanuwchllyn, LL23 7TL – **cymeradwywyd.** |

| | | | |
|---|---|---|---|
| | | | **NP5/71/497** Adeiladu estyniad unllawr yn y cefn 27 Maes y Pandy, Llanuwchllyn. LL23 7TR – **cymeradwywyd.** |